


Ffurflen Gais

Rhentu Doeth Cymru - Cymeradwyo Cwrs

DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU CANLYNOL YN GYNTAF

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn glir mewn llythrennau bras. Sicrhewch fod eich atebion y tu mewn i'r bocsys a'u bod wedi'u hysgrifennu mewn inc du. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen. Gallech fod am gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau at eich cofnodion. Rhaid i chi gwblhau o leiaf un cais ar gyfer pob cwrs rydych chi am ei gymeradwyo.



GWYBODAETH YMGEISYDD

Enw Unig Fasnachwr
/Cwmni:

Cyfeiriad Gohebu:

Cyfeiriad
Cofrestredig:

Rhif Cofrestru:

Gwefan:

Manylion Cyswllt:

Swyddfa

Cyswllt allweddol:

Rhif Ffôn:

Rôl:

E-bost:

Rhif Ffôn:

E-bost:

GWYBODAETH AM Y CWRS

Teitl y Cwrs:

Cynulleidfa Darged:

Landlord

Asiant

Os arall, nodwch

Dull darparu:

Ar-lein

Ystafell Ddosbarth

Dysgu o Bell

Dysgu yn y gwaith

Os arall, nodwch

Crynodeb o'r cwrs:

Dylai copi o'r maes llafur gael ei atodi i'ch cais.

Beth yw'r dull dilysu/
meini prawf arholi ar
gyfer y cwrs?

Dylai copi o bapur arholi enghreifftiol gael ei atodi i'ch cais.

Dylech gynnwys y marc pasio ar gyfer pob papur prawf sydd wedi'i gynnwys yn eich cais.

GWYBODAETH AM Y CWRS

Statws achredu? Os oes, rhowch fanylion.

Enw a chyfeiriad y corff dyfarnu a'r dyddiad dyfarnu.

A yw eich sefydliad yn bwriadu darparu'r hyfforddiant?

Ydy

Nac ydy

Os ydy, cwblhewch y ffurflen gais darparwr hyfforddiant

AMODAU SAFONOL AR GYFER CYMERADWYO CWRS

Cymeradwyir y cwrs hwn at ddbenion Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn amodol ar yr amodau safonol canlynol:

1. Gellir ond darparu'r cwrs yn unol ag Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 a roddir ar gyfer y cwrs hwn.
2. Rhaid defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg. Mae copi o'r canllawiau brand wedi'i gynnwys gyda'r amodau hyn.
3. Rhaid i chi roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i ddull dilysu'r cwrs.
4. Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i faes llafur y cwrs.
5. Rhaid i'r maes llafur fod yn gyfredol a rhaid ei ddiwygio er mwyn iddo adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol perthnasol cyn pen 28 diwrnod ar ôl y newid.
6. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a roddir i unigolion sydd wedi cwblhau'r cwrs fod yn unol â'r hyn a gytunwyd gan RhDC ar yr adeg y gwnaethpwyd cais.
7. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a roddir arddangos enw cyntaf a chyfenw llawn yr unigolion sydd wedi cwblhau'r cwrs. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i dystysgrif newydd gael ei chyflwyno os nad yw tystysgrif yn cynnwys enw cywir yr unigolyn fel y'i nodir yn y cais i Rhentu Doeth Cymru am drwydded.
8. Bydd cyrsiau hyfforddi yn y dosbarth yn cael eu hasesu gan Archwilydd Rhentu Doeth Cymru o fewn y 3 mis cyntaf (neu pan gynhelir y cwrs am y tro cyntaf) ar ôl cymeradwyo'r cwrs. Ar ôl asesu'r cwrs, efallai y bydd Rhentu Doeth Cymru yn cyflwyno argymhellion y mae'n rhaid eu mabwysiadu er mwyn parhau i gymeradwyo'r cwrs.
- 9 - Pan fo modd, mae'n rhaid sicrhau bod hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn hygyrch i bobl anabl a bod yr amgylchedd dysgu yn addas.
- 10 - Rhaid i chi / eich sefydliad gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Gall methu â chydymffurfio â'r amodau hyn arwain at ddiddymu eich Cymeradwyaeth Cwrs.

Efallai y bydd angen amodau pellach yn dilyn asesu eich cais. Os felly, byddwn yn ceisio gwybodaeth bellach gennych.

Mae gennych haw l i wneud sylwadau yn ymwneud â'r amodau arfaethedig a atodir i unrhyw Gymeradwyaeth a roddir. Ticiwch un

Dim sylwadau i'w gwneud

Sylwadau wedi'u cynnwys gyda'r cais

Sylwadau i'w cyflwyno o fewn 14 diwrnod

Llofnod

Dyddiad:

Printiwch eich Enw

Defnyddiwch y gofod hwn i roi unrhyw sylwadau yr hoffech i ni eu hystyried

CANLLAWIAU

Rydych yn gwneud cais am gymeradwyaeth cwrs a fydd yn ddilys am ddwy flynedd o'r dyddiad cymeradwyo.

Manylion yr ymgeisydd

Defnyddiwch yr adran hon i roi holl fanylion yr ymgeisydd a'r wybodaeth ohebu. Os ydych chi'n unigolyn yn hytrach na chwmmi neu sefydliad nid oes angen i chi gyflwyno rhif cofrestru na chyfeiriad cofrestredig.

Manylion y Cwrs

Teitl y cwrs: Ar ôl cymeradwyo eich cais bydd teitl y cwrs rydych wedi'i nodi yn eich cais yn ymddangos ar eich tystysgrif cymeradwyaeth a bydd angen i chi ddefnyddio'r teitl hwn ar y tystysgrifau a roddir i bobl sydd wedi mynychu a chwblhau eich cwrs.

Cynulleidfa Darged: Os ydych am ddatblygu un cwrs y gellir ei addysgu yn llawn i asiantau ac yn rhannol i landlordiaid gallwch ei gyflwyno i'w gymeradwyo fel un cwrs. Fodd bynnag, os ydych yn dewis naill ai landlord neu asiant yn hytrach na'r ddau, byddai angen i chi gyflwyno cymeradwyaeth cais newydd yn y dyfodol petaech yn dymuno newid eich cynulleidfa darged.

Crynodeb o'r Cwrs: Rhaid cynnwys copi llawn o'r maes llafur gyda'ch cais, gan gynnwys defnydd o gyrsiau ar-lein os yw hynny'n berthnasol. Dylech gyfeirio at y ddogfen "Canllaw Cymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant" y gellir ei lawrlwytho o'r wefan.

Beth yw'r broses ddilysu/meini prawf arholi ar gyfer y cwrs? Mae angen cael proses ddilysu gadarn a fydd yn dangos bod y mynychwyr wedi ennill dealltwriaeth dda o'r maes llafur a drafodwyd. Dylech gynnwys papurau prawf enghreifftiol gyda'ch cais a sicrhau y nodir y marc pasio a'i fod yn ddigon cadarn.

Statws Achredu? Os yw eich cwrs wedi'i achredu gan gorff achredu yn y DU, rhowch fanylion yma. Os nad yw eich cwrs wedi'i achredu, gadewch y bwlch yn wag.

Statws cymhwyster cydnabyddedig?

Os yw eich cwrs yn rhoi cymhwyster i bobl sy'n mynychu ar ôl ei gwblhau, rhowch fanylion y cymhwyster yma, gan gynnwys enw'r corff dyfarnu a manylion gohebu. Os nad oes ganddo statws cymhwyster, gadewch y bwlch yn wag.

DULL TALU

Y ffi sy'n daladwy: £440.00

Siec amgaeëdig yn daladwy i: Rhentu Doeth Cymru

Swm y siec:

Cerdyn debyg/credyd (Fisa, MasterCard neu Maestro)

Byddwn yn cysylltu â chi am fanylion eich cerdyn. Nodwch yr adeg orau i ni gysylltu â chi a'ch rhif ffôn.

Anfonwch anfoneb os gwelwch yn dda

GWIRIO'R CAIS

Cyn anfon y ffurflen hon, sicrhewch eich bod wedi:

1. Darllen a deall canllawiau a gofynion cymeradwyo'r cwrs.
2. Gwneud y taliad perthnasol (gallai fod oedi gyda'ch cais os bydd y taliad yn anghywir).
3. Chwblhau holl adrannau perthnasol y ffurflen hon.
4. Amgáu maes llafur y cwrs, enghraifft o bapurau arholi a'r marc pasio.
5. Llofnodi a dyddio'r datganiad.

Cofiwch ein bod yn codi tâl am bob cais, p'un a yw'n llwyddiannus ai peidio.

Argymhellwn i chi styffylu unrhyw atodiadau (fel sieciau) i'r ffurflen gais i sicrhau na fyddant yn dod yn rhydd.

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn eich cais, gallai eich cais gael ei wrthod a/neu gallai'r gymeradwyaeth i'ch cwrs gael ei thynnu'n ôl.

Llofnod

Dyddiad

Cwmni

Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

**Rhentu Doeth Cymru,
Blwch SP 1106,
Caerdydd,
CF11 1UA**